

Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 4 Hydref
2021

Hydref 2021



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 4 Hydref 2021 gwnaethom ystyried tri chytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Dyma'r cytundebau a drafodwyd gennym:
 - Y DU/Albania: Aildderbyn Pobl;
 - Y DU/Portiwgal: Cytundeb ynghylch Cyflogi Aelodau'r Teulu sy'n rhan o Aelwyd Cenadaethau Diplomyddol;
 - Y DU/Antigua a Barbuda: sefydlu Ffin Forwrol rhwng Anguilla ac Antigua a Barbuda
7. Cytunwyd i nodi'r cytundebau er gwybodaeth. Nodir manylion pellach am bob un o'r cytundebau isod.

¹ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Hydref 2021

2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Y DU/Albania: Aildderbyn Pobl

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 14 Medi 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Tachwedd 2021.

9. Nod y cytundeb hwn yw darparu mecanwaith cytunedig ar gyfer dychwelyd unigolion sydd wedi torri cyfreithiau, polisiau a gweithdrefnau mewnfudo. Mae'r cytundeb yn ganlyniad i ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

10. Mae'r adran ar ddatganoli a gynhwysir fel arfer mewn Memoranda Esboniadol i gytundebau rhyngwladol ar goll o'r cytundeb hwn. Gan hynny, nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys p'un a ymgynghorwyd â nhw wrth ddrafftio'r cytundeb a barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd.

11. Mae'r cytundeb yn ymwneud â deddfau, polisiau a gweithdrefnau mewnfudo. Mae hwn yn fater a gedwir yn ôl, fel y darperir ym mharagraff 29 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

12. Gwnaethom nodi'r cytundeb er gwybodaeth, a gwnaethom nodi bod y wybodaeth sy'n ymwneud â datganoli, a gynhwysir fel rheol, ar goll.

13. Cytunwyd i dynnu sylw'r Prif Weinidog ar y mater hwn, ynghyd â'r Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Y DU/Portiwgal: Cytundeb ynghylch Cyflogi Aelodau'r Teulu sy'n rhan o Aelwyd Cenadaethau Diplomyddol

14. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 14 Medi 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Tachwedd 2021.

15. Nod y cytundeb hwn yw caniatáu i ddibynyddion (er enghraifft priod neu blant) y sawl a gyflogir mewn cenhadaeth ddiplomyddol, mewn swydd gonsylaidd neu mewn sefydliad rhyngwladol gan y Wladwriaeth sy'n eu hanfon (y DU neu Bortiwgal) gael ennill arian drwy gyflogaeth y tu allan i'r Llysgenhadaeth/swydd yn y Wladwriaeth sy'n eu derbyn (y DU neu Bortiwgal).

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynnwys polisi'r Cytundeb hwn yn ymwneud â materion tramor a pholisi cyflogaeth yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil, sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â mater a gedwir yn ôl, heb unrhyw oblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig. Ni chafwyd ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig wrth ddrafftio'r cytundeb hwn.

17. Mae materion tramor a pholisi cyflogaeth yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil yn faterion a gedwir yn ôl, fel y darperir ym mharagraffau 5 a 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae pwnc cyflogaeth hefyd wedi'i gadw'n ôl, heblaw am rai eithriadau cyfyngedig.

18. Fodd bynnag, caiff cysylltiadau diplomyddol a chonsylaidd eu trafod mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli yn 2012 rhwng Llywodraeth y DU, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon.

19. Gallai'r cytundeb hwn fod yn gymwys i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru sydd â statws diplomyddol. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru ei swyddfa ryngwladol ei hun ym Mhortiugal.

20. Gwnaethom nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig, a chytunwyd i ystyried cytundebau tebyg yn y dyfodol yn ôl yr achos.

Y DU/Antigua a Barbuda: sefydlu Ffin Forwrol rhwng Anguilla ac Antigua a Barbuda

21. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 16 Medi 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 19 Tachwedd 2021.

22. Nod y cytundeb hwn yw sefydlu ffin forwrol rhwng Anguilla ac Antigua a Barbuda a helpu i gynnal cysylltiadau da ag Antigua a Barbuda. Arweiniodd y trafodaethau hefyd at gytundeb â Ffrainc mewn perthynas â St Martin a St Barthélemy.

23. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynnwys polisi'r cytundeb hwn yn ymwneud â therfynu parth morwrol Tiriogaeth Dramor, sy'n fater a gedwir yn ôl yn llwyr heb unrhyw oblygiadau i'r Gweinyddiaethau Datganoledig. O'r herwydd, ni wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddrafftio'r cytundeb.

24. Mae terfynu parthau morwrol yn un o Dirioogaethau Tramor y DU yn fater a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

25. Gwnaethom nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

3. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a ystyriwyd yn flaenorol

26. Yn dilyn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 cytunwyd i ysgrifennu at Llywodraeth Cymru yn gofyn am yr asesiad a gynhaliodd o'r goblygiadau i Gymru a'i chontractwyr yn sgil pedwar cytundeb rhwng y DU ac Estonia, Latfia, Gwlad Belg a'r Eidal ar amddiffyn gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â chasgliad Llywodraeth y DU bod y cytundebau 'heb unrhyw oblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig'.

27. Ymatebodd Prif Weinidog Cymru ar 4 Hydref 2021. O ran y goblygiadau i Gymru a'i chontractwyr, dywed yr ymateb:

- fod y darpariaethau sylweddol yn rhai lefel-uchel a'i bod yn debygol y byddent angen trefniadau gweithredu mewn perthynas â chyfnewidiadau penodol;
- fod y cytundebau'n ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol, a dylem gofio a ydynt yn gwrthdaro â'r un peth. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r cytundebau'n gwrthdaro â deddfwriaeth diogelu data'r DU;
- gan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau, gallent wynebu Adolygiad Barnwrol neu gamau gan yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â gwneud hynny.

28. Mae'r ymateb hefyd yn cadarnhau nad oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl yr ymgynghorir â hwy ynghylch y cytundebau hyn gan eu bod yn rhai lefel-uchel a chan eu bod yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan nodi:

"pe bai'r cytundebau'n cael effaith ar faterion datganoledig, byddai gan Llywodraeth Cymru ddiddordeb dilyn yn y rhannau hynny o'r trafodaethau ac felly byddai disgwyl y byddai ymgynghori'n digwydd â hi."

29. Gwnaethom ystyried yr ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 11 Hydref 2021.